Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Ariannol a gynhelir yn Neuadd y Sir, Llandeilo ar ddydd Mercher 2il Gorffennaf 2003 am 7.00pm.

Presennol: Cynghorwyr : Cyng. R. Bellamy (Cadeirydd), Cyng. K. Day, Cyng. G. Price, Cyng. C. Jenkins, Cyng G. Vaughan Jones, Cyng D. A. Jones

Arall: Colette Paterson (Clerc y Dref)

5793: Ymddiheuriadau: Dim.

5794: Anfonebau i'w talu. Cyflwynwyd y canlynol gan y Clerc i'w talu;

BT – Ar gyfer Ffôn Cyngor y Tref - ***£53.28*** Cynigiwyd gan y *Cyng Jenkins, ac eiliwyd gan y Cyng Vaughan Jones*
Konica Llewellyn – taliadau llun gopïwr - ***£8.05*** *Cynigiwyd gan y Cyng. Day, eiliwyd gan y Cyng. Price.*
M. Rees – gwaith trwsio trydan yn Hen Neuadd y Sir , yn dilyn archwiliad diogelwch - ***£453.55*** *Cynigiwyd gan y Cyng. Day, eiliwyd gan y Cyng. Jones.*
Zurich Municipal – Mynychodd y Clerc seminar ar asesiad perygl - ***£70.50*** *Cynigiwyd gan y Cyng. Jenkins eiliwyd gan y Cyng. Vaughan Jones.*
'Viking Stationary' – Inc i'r argraffwr a ffeiliau - ***£113.76*** *Cynigiwyd gan y Cyng. Jones, eiliwyd gan y Cyng. Day.*

Er mwyn cefnogi busnesau lleol, bydd deunydd swyddfa'r Clerc yn y dyfodol yn cael ei archebu oddi wrth Price Papers.

Bydd y Cyng. Price yn darparu deunydd swyddfa' ar gyfer y Cyngor ac yn cadw llyfr, a fydd yn cael ei gyflwyno yn y Cyfarfodydd Ariannol i'w talu. Dylai'r prisiau fod yn gystadleuol a bydd disgwyl i'r Cyng. Price nodi hyn ar ei Gofrestr o Ddiddordeb.

5795: Y Cyfrifon i'w Archwilio – Roedd y Cyng. Bellamy a'r Clerc wedi treulio rhywfaint o amser yn paratoi'r cyfrifon fel ag y maent ar hyn o bryd. Yn dilyn hyn cafwyd manylion o'r cyfrifon. Dywedodd y Clerc ei bod wedi rhoi holl anfonebau/derbynebion, cyllidebau a chysoniadau'r banc ar daenlenni, er mwyn ei gwneud yn haws i'w rheoli o ran gallu dod o hyd iddynt, eglurdeb, cyfrifo ac i wneud pethau'n haws i'r Clerc.

Cynigiwyd y dylai'r systemau cofnodi â Llaw, h.y. y llyfrau Arian ac Incwm gael eu rhoi o'r neilltu o blaid y systemau cyfrifiadurol sydd wedi'u creu gan y Clerc. Ar yr amod bod systemau cof digonol yn cael eu cadw. Bydd y Clerc yn rhoi copi o'r holl gyfrifon ar CD wrth iddo gael ei gwblhau a bydd yn cyflwyno copi bob mis i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Cynigiwyd gan y Cyng. Day ac eiliwyd gan y Cyng. Jones.

5796: Yr Archwiliwr Mewnol -

Cynigiodd y Cyng. C. Jenkins y dylid gwahodd/gofyn i Hugh Towns fynychu cyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn i gymeradwyo'r cyfrifon i'w harchwilio.

5797: Y cyfrifon – Gellir egluro'r amrywiadau yn y cyfrifon rhwng 2001-2002 a 2002-2003 yn y modd canlynol.

Costau Cyffredinol (£8741.41 i £ 157.00)	Mae'r newidiadau yn y cyfrifo yn golygu fod pethau bellach wedi'u dyrannu mewn modd llawer mwy penodol. Yn y dyfodol bydd treuliau cyffredinol ddim ond yn cynnwys gwariant penodol yng ngweinyddiaeth y Cyngor. Bydd gwariant arall yn cael ei ddisgrifio fel prosiect neu fel rhan o'r rhaglen ariannu cyfatebol.
Costau Hen Neuadd y Sir(£117.10 i £2474.00)	Mae Cyngor y Dref wedi ymgymryd â rhaglen o waith cynnal a chadw angenrheidiol ar Hen Neuadd y Sir.
Adran Taliadau 137 (£950.00 i £2255.00)	Mae Cyngor y Dref wedi mynd yn fwy fwy gweithgar yn gofyn am geisiadau i adran taliadau 137 gan roi gwybod i'r gymuned fod rhywfaint o arian ar gael ar gyfer prosiectau cymunedol ac ati, gan annog mwy o geisiadau felly.
Mynwent Eglwys Llandeilo (£0.00 - £1436.00)	Ni thalwyd am gynnal a chadw mynwent Llandeilo yn y flwyddyn ariannol flaenorol, felly roedd yna ddyledion i'w talu eleni.
Digwyddiadau (£1000.00 - £3275.00)	Bellach mae yna dymor ffyniannus o Wyliau yn y Dref, ac mae Cyngor y Dref yn mwynhau cynnig rhan fwy gweithgar yn ei chyfraniadau i ddigwyddiadau a gwyliau yn y Dref. Y gobaith yw y bydd hyn yn parhau i gynyddu.
Prosiectau – Arian Cyfatebol (NEWYDD - £7941.83)	Mae HWN yn arian newydd i'w wario eleni ac mae'n dangos fod gan y Cyngor fwy o rôl yn y Gymuned a'i statws o fod yn fwy gweithgar. Gwariwyd y gwariant hwn ar 2 brif brosiect – Gwaith tocio coed o dan y Bont a Phrosiect Ieuenctid y Dref.

5798: Y Fantolen sy'n Cadarnhau: O Dan Asedau -

Dinistriwyd y piano gan Gyngor Sir Caerfyrddin a dylai hyn gael ei nodi yn y Gofrestr o Asedau.
Roedd y cyn Faer wedi derbyn bathodyn y maer a'r cyn faeres wedi derbyn broitsh, dylid nodi hyn yn y gofrestr o Asedau
Roedd Plât Tref Llandeilo Fawr wedi'i gyflwyno i Dîm Rygbi Ysgolion Canada oedd yn ymweld ag Ysgol Tregib.

Mewn perthynas â thaliadau Adran 137 nodwyd er bod y Cyngor wedi dyrannu mwy na ddwywaith yr arian o gymharu â'r flwyddyn gynt, dim ond tua trydydd o'r swm sy'n bosibl i'w glustnodi ar gyfer adran 137 sy'n cael ei wario.

5799:Arian Wrth Gefn a Glustnodir -

Mae'r Cyngor yn derbyn y canlynol fel eu Harian Wrth Gefn a Glustnodir ar hyn o bryd:

Arian Wrth Gefn a Glustnodir

Arian Cyfredol Wrth Gefn yn y Banc 31.03.03 ---------- £42248.44

Cronfa Goleuadau Stryd	£ 2000.00
Goleuadau Nadolig	£ 1000.00
Digwyddiadau	£ 2000.00
Yr Eglwys	£ 400.00
Gwefan/Canllaw i'r Dref	£ 1000.00
Prosiect (Arian Cyfatebol)	£ 9500.00
Colli Rhent Hen Neuadd y Sir	£ 12000.00
Cynnydd Mewn Costau Cyflogau	£ 2000.00
Gorwario yn y Gyllideb	£ 3000.00
Prosiect Gerddi	£ 8000.00
C. C. T. V.	£ 500.00
Llandeilo Yn Ei Blodau	£ 500.00
CYFANSWM YR ARIAN WRTH GEFN A GLUSTNODIR	£ 41900.00

Cyfanswm yr arian wrth gefn sydd heb ei glustnodi ---------- £348.44

5800: Asedau a Phrisio: - Tra bod y gofrestr o Asedau yn cofnodi gwerth eiddo'r Cyngor,

wnaeth y Cyngor drafod union werth rhai o'i asedau. Er dibenion Asesiad Perygl ac Yswiriant.

Penderfynwyd y dylai'r Cyngor ddod o hyd i union werth presennol ei asedau trwy eu prisio. Roedd H. Humphries o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnig ymgymryd â'r gwaith o brisio Hen Neuadd y Sir. Awgrymodd y Cyng. Vaughan Jones y dylid mynd ato gan holi iddo pwy fyddai'n gallu ymgymryd ag asesiad o gynnwys Hen Neuadd y Sir y mae'r Cyngor yn eu perchen.

5801: Mae'r Archebiant ar gyfer y flwyddyn 2003 -2004 wedi'i gofnodi'n ffurfiol yn £33690.05. Mae'r Clerc wedi gofyn am y swm hwn ac mae gan y Cyngor daliad cyntaf o £11230.02 i'w wneud.

5802: Asesiad Perygl – Yn yr archwiliad blaenorol cafodd ei hargymell bod Llandeilo Fawr yn ymgymryd ag Asesiad Perygl o'i gyfrifoldebau, gweithgareddau, cyflogaeth a threfniadau. Mewn perthynas â hyn roedd Clerc y Dref wedi mynychu seminar 'Zurich Municipal' ar Asesiad Perygl er mwyn canfod y ffordd orau o weithredu hyn. Roedd y Clerc wedi trafod y mater gyda Chlercod eraill yn y seminar ac roeddynt wedi argymell cwmni i wneud y gwaith o Asesu Perygl ar gyfer y Cyngor gan Glerc Cyngor Cymuned Llannon – 'RTS Associates', 18 Lôn Draenen, Sgeti, Abertawe, SA2 9EW. Awgrymwyd y byddai cysylltu gyda Rheolwr Asesu Perygl Cyngor Sir Caerfyrddin, Adrian Jones, yn ein hysbysu a fyddai'r Cyngor yn gallu/neu'n fodlon gwneud asesiadau perygl ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau penodol, er enghraifft arddangosfa Tân Gwyllt.

Cynigiwyd gan y Cyng. Bellamy mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni Asesiad Perygl fyddai i gytundebu cwmni proffesiynol i wneud un. Fe fyddai felly'n cael ei wneud o fewn canllawiau'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch. Y Clerc i ofyn am brisiau i wneud Asesiad Perygl oddi wrth RTS a Chyngor Sir Caerfyrddin.

5803: Datganiad Cyllidebol Chwarterol/ Archwiliad Cyllid Chwarterol:

Cyflwynwyd y Gyllideb Chwarterol bresennol gan y Clerc fel a ganlyn: Mae'r gwariant presennol o fewn y symiau amcanol ac nid oedd angen ail ddyrannu arian ar hyn o bryd.

Cyllideb Llandeilo Fawr 2003 -2004							
Taliadau 2002-2003			Cyllideb 2003 -4		Taliadau Hyd yn Hyn 2003-4	i'w Talu	
		Costau Gweinyddu					
£	3,121.00	Treuliau'r Maer	£	3,213.00	-£	59.41	
£	4,937.85	Cyflogau a Lwfans y Clerc	£	7,000.00	-£	2,169.96	
£	8,258.33	Gwariant Cyffredinol	£	2,000.00	-£	97.91	
£	250.00	Ffioedd Arcwhilio	£	450.00			
£	823.28	TAW			-£	165.03	
£	2,116.25	Yswiriant	£	2,500.00			
		Costau'r Adeilad					
£	2,474.00	Costau Hen Neuadd y Sir	£	6,000.00	-£	584.82	
£	3,410.40	Ad-dalu Benthyciad	£	7,500.00			
£	4,009.50	Llog ar y Benthyciad					
£	539.50	Costau Swyddfa			-£	204.60	
		Dyletswyddau Statudol					
£	2,255.00	Adran 137	£	3,500.00			
£	561.89	Goleuadau Stryd	£	600.00	-£	239.51	
		Gwariant Arall					
£	2,688.77	Goleuadau Nadolig	£	4,000.00			
£	3,275.00	Digwyddiadau	£	6,000.00			-£ 4,:
£	220.00	Cynnal a Chadw Llwybrau Troed	£	5,000.00			
£	-	Llandeilo Yn Ei Blodau					
£	1,411.00	Yr Eglwys	£	1,000.00	-£	119.99	
		Ffordd Osgoi					
		Prosiectau Arian Cyfatebol					
		Gwefan					
		Gerddi					
		C. C. T. V.					
		Colli Rhent Hen Neuadd y Sir					
		Gorwario yn y Gyllideb					
£	40,351.77	CYFANSWM	£	48,763.00	-£	3,641.23	-£ 4,:

Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid wedi cynnal Archwiliad Cyllidebol Chwarterol rhannol. Fe fydd hyn yn cael ei gwblhau pan fyddai'r Llyfr Siec ar gael. Bydd y ffurflen wedi'i llofnodi yn cael ei hychwanegu i'r ffeil taliadau ar gyfer 2003 - 2004.

5804: Goleuadau Nadolig. Roedd y Cyng. D. Jones wedi bod mewn cysylltiad â Mr Bannister o Gyngor Sir Caerfyrddin. Er nad oedd gan y Cyngor Sir arian ychwanegol i'w gynnig i Gyngor y Dref, roeddynt yn barod i roi cymorth gyda goleuadau'r

Nadolig.

Bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal rhwng y Cyng. Jones, Mr Bannister a'r Cyng. Jenkins am 9.30 ddydd Mercher 9fed Gorffennaf 2003. Yn ystod y cyfarfod hwn bydd yn rhaid cael gwybod pa help y gallai'r Cyngor Sir ei gynnig, a hefyd i asesu'r posibiliadau.

5805: Materion Ariannol Eraill. Wnaeth y Cyng. Jones y sylw fod y dref yn edrych yn hyfryd iawn ar hyn o bryd. Mewn sgwrs gyda Mike Williams y Siambr fasnach, cododd y mater ynghylch y basgedi blodau gan dynnu sylw at y problemau presennol sef fod yna ddim offer ar gael i ddyfrio'r blodau, ac mae'n rhaid rhoi d r iddynt bob dydd.

Cynigiwyd (gan y Cyng. Jones) fod Cyngor y Dref yn defnyddio'r £500.00 sydd wedi'i glustnodi ar gyfer Llandeilo yn ei Blodau a phrynu offer addas i ddyfrio'r planhigion. Fe fyddai'n cael ei ddefnyddio gan y Siambr Fasnach i ddyfrio'r planhigion. Eiddo'r Cyngor Tref fyddai hwn ac fe fyddai'r Cyngor yn gofyn am wybodaeth ynghylch lle fyddai'n cael ei gadw a hefyd unrhyw waith cynnal a chadw. Bydd y Swyddog Technegol yn mynd ati i weld os yw'r Cyngor erioed wedi cael caniatâd i osod tap y tu allan i doiledau'r dynion ger y maes parcio. Os yw caniatâd wedi'i roi, yna dylid cael prisiau o faint fydd yn ei gostio. Eiliwyd gan y Cyng. Price.

Awgrymwyd hefyd y byddai Llandeilo yn ei Blodau yn dymuno cynnig gwobr ar gyfer yr arddangosfa flodau orau. Roedd yna blac/tlws a noddwyd gan y ganolfan arddio yn Ffordd yr Orsaf. Nododd y Cyng. Vaughan Jones y dylai hwn fod yn un dwyieithog.

Penderfynodd Cyngor y Dref i gynnig gwobr o £50.00 am yr Arddangosfa Flodau Orau i gyd fynd â'r plac/tlws. Fe fydd yn cael eu cyflwyno ynghyd â'r cais y dylai'r plac fod yn un dwyieithog i adlewyrchu ein cymuned.

5806; Gohebiaeth – Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn cynnig yr ardd ar y cilgant i'r Cyngor Tref yn amodol ar gytundeb.

Anghenion a goblygiadau cyfreithiol y gwerthiant hwn i'w rhoi ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod llawn nesaf y Cyngor.

Mae cais am gyfraniad wedi dderbyn gan yr yl Seramica. Roedd yna adroddiad Marchnata a Mantolen o'r flwyddyn flaenorol ynddo.

Cynigiwyd gan y Cyng. Price bod rhodd o £750.00 yn cael ei rhoi i'r yl, ar yr amod bod Logo'r Cyngor fel noddwr yn cael ei ddefnyddio ar y rhaglenni a bod y Cyngor yn cefnogi dwyieithrwydd, ac y byddent yn dymuno gweld mwy o daflenni ac arwyddion yl yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Eiliwyd hyn gan y Cyng Jones.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm.